



## Amcan Llesiant 10

Heneiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

Y canlynol yw ein hymrwymiaadau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiaadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>A - 'Seilwaith' Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol Integredig</b>		
Byddwn yn parhau i anelu at leihau cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty tra byddant yn aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (PAM/025) (2016/17 - 43 o gleientiaid - cyfradd o 2.30/ Targed 2017/18 - 42 o gleientiaid - cyfradd 2.24)	x	<b>Cadwyd 47 o gleientiaid neu 2.5 fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed</b> yn yr ysbyty yn ystod 2017/18. Nid yw hyn yn cydymffurfio â'r targed ac mae'n ddirywiad o gymharu â'r llynedd. Hyd at fis Tachwedd 2017 roeddem yn cydymffurfio â'r targed, ond yn anffodus o achos gwasgfeydd y gaeaf a'r tywydd gwael, a materion o ran y farchnad gofal cartref gan fod un darparwr wedi rhoi'r gorau i ddarparu gofal cartref yn ardal Llanelli, roeddem wedi profi oedi o ran gallu i ddarparu gofal cartref.
<b>B – Darparu Gwasanaethau Cynaliadwy</b>		
Byddwn yn gwneud cynnydd o ran comisiynu gofal tymor hir yn ddarbodus gan ddefnyddio rheoli proffesiynol a rheoli perfformiad effeithiol (Cam gweithredu rhif 12622)	✓	Mae gennym systemau effeithiol ar waith i reoli'r ffordd rydym yn comisiynu gofal yn y tymor hir, gan gyfeirio'n benodol at Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Awdurdod a'i bwyslais priodol ar ddadansoddi data ac atebion. Ategir hyn gan waith y tîm rheoli gwasanaethau integredig yn dadansoddi data a rheoli perfformiad proffesiynol.
Byddwn yn comisiynu'n effeithiol ymyriadau ac asesiad tymor byr i fwyhau deilliannau annibyniaeth a lles ar gyfer ein poblogaeth. (Cam gweithredu rhif 12623)	✓	Gwaith o adlinio llwybr tymor byr wedi ei gwblhau. Mae effeithiolrwydd ymyriadau tymor byr, o ganlyniad i asesiad amlddisgyblaethol gan therapydd, nyrs a gweithiwr cymdeithasol, yn cael ei fonitro. Nodwyd effaith gadarnhaol ar yr ôl-groniad o bobl sy'n aros am asesiad Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol.
<b>C - Cymunedau lleol yn cefnogi llesiant ac annibyniaeth</b>		
Gofynnir i gleientiaid a ydynt yn fodlon ar eu gofal a'u cefnogaeth. Dangosodd arolwg 2016/17 fod 83.2% yn fodlon. Fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i wella hyn. (PAM024) (Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2017/18)	✓	Yn ôl arolwg 2017/18, roedd <b>86.8%</b> o gleientiaid yn fodlon ar eu gofal a'u cymorth, ac mae hwn yn welliant ers 2017/18.
Gofynnir i ofalwyr a ydynt yn credu eu bod yn cael cefnogaeth i barhau yn eu rôl ofalu. Dangosodd arolwg 2016/17 fod 78.5% yn teimlo eu bod yn cael hynny. Fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i wella hyn. (PAM/026) (Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2017/18)	x	Yn ôl arolwg 2017/18 roedd <b>69%</b> o ofalwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i barhau yn eu rôl ofalu, mae hyn yn ddirywiad ar y llynedd sy'n siomedig. Fodd bynnag rydym yn mynd ar hynt y canlyniadau sy'n deillio o'r arolwg o fewn y timau rheoli gofal.
<b>D - Ymyriadau i Gynyddu Annibyniaeth</b>		
Byddwn yn parhau i leihau nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl(PAM/015) (Canlyniad 2016/17 - 167 o ddiwrnodau / Targed - 165 o ddiwrnodau)	✓	Nifer y dyddiau a gymerir, ar gyfartaledd, i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ystod 2017/18 yw <b>161 diwrnod</b> , sy'n welliant ar 2016/17.